**LGH-01-03(p.1)**

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## Y DIWEDDARAF AM Y MESUR LLYWODRAETH LEOL

### Diben

1. Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am hynt y Mesur Llywodraeth Leol yn Senedd y DU a rhoi cyfle i'r Aelodau roi sylwadau ar ddarpariaethau'r Mesur.

### Crynodeb

2. Cafodd y Mesur Llywodraeth Leol ei ddarlleniad cyntaf yn Nh'r Cyffredin ar 25 Tachwedd 2002. Mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n darparu ar gyfer rhoi pwerau helaeth i'r Cynulliad gyflwyno is-ddeddfwriaeth. Caiff y Mesur ei ail ddarlleniad ar 7 Ionawr 2003 ac yn fuan ar ôl hynny bydd yn cael ei drafod mewn pwyllgor seneddol.

### Y Cefndir

3. Cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog y Mesur Llywodraeth Leol drafft ym mis Mehefin 2002. Trafododd y Pwyllgor y Mesur drafft ar 10 Gorffennaf a chafodd adroddiad (LGH-12-02(p.3)) yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys deddfwriaeth sylfaenol i Gymru yn y Mesur.
4. Ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor ar 25 Tachwedd **(atodiad 1)** i'w hysbysu bod y mesur wedi cael ei gyflwyno yn Nh'r Cyffredin y diwrnod hwnnw a dosbarthwyd y llythyr hwn i aelodau'r Pwyllgor. Roedd y llythyr yn rhoi adroddiad am ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar faterion sy'n bwysig i Gymru.
5. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chyllid cyfalaf a chyfrifon;

gweinyddiaeth ariannol; grantiau; Ardaloedd Gwella Busnes; ardrethi annomestig; treth y cyngor; cyllid tai, a darpariaethau amrywiol.

**Materion i'w Hystyried**

6. Efallai y bydd yr aelodau yn awyddus i wneud sylwadau neu ofyn am ragor o wybodaeth am oblygiadau'r Mesur i lywodraeth leol.
7. Bwriedir i'r pwyllgor seneddol drafod y Mesur yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar 20 Ionawr am gyfnod o dair wythnos.
8. Bydd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol fydd yn codi tra caiff y Mesur ei drafod gan y Pwyllgor yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor hwn.

**Swyddog Cyswllt:** Frank Cuthbert, yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol